Heblaw am adrodd yn ffurfiol yn unol â Rheol Sefydlog 11.5, mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad wedi cynnwys sylwadau ar fân ddiffygion teipograffyddol neu eu tebyg nad ydynt yn cyfiawnhau adrodd ffurfiol, awgrymiadau ynghylch achosion lle gellid symleiddio'r drafftio neu ei wneud yn eglurach ac weithiau materion ynghylch manylion sy'n berthnasol i ddeall y ddeddfwriaeth.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod deddfwriaeth y Cynulliad wedi'i drafftio mewn arddull modern gan ddefnyddio iaith glir, syml. Anogir defnyddio brawddegau byr. Gwnaeth y pwyllgor awgrymiadau ar yr angen am fwy o eglurder neu lle y gellid symleiddio drafftio i helpu'r darlennydd 59 o weithiau (29.20%). Canfuwyd gwallau teipograffyddol mewn (71) achos (35.14%). Mewn (14) o achosion (6.93%) roedd gwallau gramadegol.

Mae awgrym y Pwyllgor y dylid dileu iaith sy'n cyfeirio at un rhyw penodol wedi'i dderbyn yn gyffredinol. Dim ond pum gorchymyn y cafwyd eu bod yn cynnwys achosion o iaith sy'n cyfeirio at un rhyw penodol (2.47%).

Mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gynhyrchu deddfwriaeth ddwyieithog heblaw pan yw hynny'n amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol. Drafftwyd 87.12% o Orchmynion yn ddwyieithog, gan wneud cyfanswm o (176) o Orchmynion. O blith y rhain, dim ond 18 o Orchmynion (10.22%) a dderbyniwyd a oedd yn cynnwys anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder bod offerynnau statudol clwy'r traed a'r genau sy'n dod drwodd o dan y weithdrefn weithredol wedi'u gwneud yn Saesneg yn unig yn gyffredinol. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli bod amgylchiadau arbennig, fel y cychwyniad o glwy'r traed a'r genau, yn gofyn cymryd camau cyflym a chyson ledled Prydain Fawr a'i bod felly'n holl bwysig cyhoeddi deddfwriaeth unfath ar yr un pryd ym mhob rhan o'r wlad. Er hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Cynulliad sefydlu gweithdrefnau, er mwyn cyflawni ei ymrwymiad a'i rwymedigaethau i ddwyieithrwydd, i'w alluogi i gyhoeddi deddfwriaeth yn Gymraeg a Saesneg hyd yn oed mewn sefyllfaoedd brys.

O'r cyfanswm o 202 o orchmynion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod o Fedi 2000 i Fedi 2001, mae 184 ar gael fel fersiynau printiedig terfynol. O'r rhain, roedd 71 fersiwn terfynol (38.58%) wedi cymryd holl awgrymiadau'r Pwyllgor i ystyriaeth; 46 fersiwn terfynol (25%) wedi cynnwys rhai o'r awgrymiadau; a 28 fersiwn terfynol (15.21%) heb gynnwys yr awgrymiadau. Nid oedd yn rhaid i'r Pwyllgor wneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â 39 o orchmynion (21.19%). Ar hyn o bryd, nid yw fersiynau printiedig terfynol wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn ar gyfer 18 o orchmynion (8.91%).

Mewn rhai achosion bydd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi gallu gwneud sylwadau ar ddrafft cynnar o'r deddfwriaeth. Pan yw hynny wedi'i gwneud yn bosibl codi pwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol, cofnodir hynny fel arfer yn adroddiad y Pwyllgor.

Gweithdrefnau Gwneud Deddfwriaeth

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn prosesu deddfwriaeth mewn pedair ffordd wahanol: drwy Weithdrefn Safonol, Gweithdrefn Weithredol, Gweithdrefn Gyflym neu Weithdrefn Estynedig.

Gweithdrefn Safonol

O dan y Weithdrefn Safonol, mae'r Gweinidog cyfrifol yn cyhoeddi Gorchymyn drafft i'r holl aelodau ac yn gofyn am sylwadau ynghylch a ddylai gael ei ystyried gan bwyllgor

pwnc. Fel arfer mae'r Gweinidog hefyd yn gwneud arfarniad rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol y Gorchymyn drafft. Wedyn mae'r Gweinidog yn cyflwyno'r Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor Busnes ac yn argymhell ynghylch a ddylid ei gyfeirio at bwyllgor pwnc. Ar ôl ei ystyried gan y Pwyllgor Busnes, mae'r Dirprwy Lywydd yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc (gweithdrefn estynedig) ac, ar ôl unrhyw adroddiad gan y pwyllgor pwnc, mae'r Gweinidog yn cyflwyno'r Gorchymyn drafft yn y Cyfarfod Llawn ac yn ei gyfeirio at y Pwyllgor Deddfau. Mae'r Pwyllgor Deddfau yn adrodd wedyn ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r Gorchymyn drafft. Wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, gellir gwneud y Gorchymyn (Rheol Sefydlog 22).

Roedd 94 o ddarnau o ddeddfwriaeth y Cynulliad (46.53%) a ddaeth gerbron y Pwyllgor wedi'u gwneud o dan y Weithdrefn Safonol. Gwnaethpwyd adroddiad ar 14 (14.89%) o'r rhain wedyn yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 a'u dwyn i sylw arbennig y Cynulliad.

Gweithdrefn Estynedig

Roedd 94 o ddarnau o ddeddfwriaeth y Cynulliad (46.53%) a ddaeth gerbron y Pwyllgor wedi'u gwneud o dan y Weithdrefn Safonol. Gwnaethpwyd adroddiad ar 14 (14.89%) o'r rhain wedyn yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 a'u dwyn i sylw arbennig y Cynulliad.

Roedd dau ddarn o ddeddfwriaeth y Cynulliad (0.99%) a ddaeth gerbron y Pwyllgor wedi'u gwneud o dan y Weithdrefn Estynedig. Nid adroddwyd am y rhain yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

Gweithdrefn Gyflym

O dan y Weithdrefn Gyflym mae'r Cynulliad, ar gynnig y Gweinidog, yn pleidleisio i gymeradwyo Gorchymyn drafft heb unrhyw drafodaeth (Rheol Sefydlog 22.25).

Roedd 42 o ddarnau o ddeddfwriaeth y Cynulliad (20.79%) a ddaeth gerbron y Pwyllgor wedi'u gwneud o dan y Weithdrefn Gyflym. Gwnaethpwyd adroddiad wedyn ar wyth (19.04%) o'r rhain yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 a'u dwyn i sylw arbennig y Cynulliad.

Gweithdrefn Weithredol

O dan y Weithdrefn Weithredol, gall Cabinet y Cynulliad benderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol cydymffurfio ag amryw o gamau yn y weithdrefn safonol, gan gynnwys ceisio cymeradwyaeth gan y Cynulliad. Pan wneir Gorchymyn heb iddo gael ei ystyried gan y Cynulliad gall Aelod gyflwyno cynnig, o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y Gorchymyn, y dylid diddymu'r Gorchymyn.

Roedd 63 o ddarnau o ddeddfwriaeth y Cynulliad (31.18%) a ddaeth gerbron y Pwyllgor wedi'u gwneud o dan y Weithdrefn Weithredol. Gwnaethpwyd adroddiad wedyn ar chwech (9.52%) o'r rhain yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 a'u dwyn i sylw arbennig y Cynulliad.

MATERION GWEITHREDOL

Er gwaethaf terfynau amser cyfyng oherwydd cyfarfodydd wythnosol, mae ochr weithredol y Pwyllgor wedi rhedeg yn llyfn. Cyn gynted ag y gosodir gorchymyn drafft gerbron y Cynulliad, mae'n ymddangos ar yr agenda cyfarfod nesaf sydd ar gael, ynghyd ag adroddiad cysylltiedig gan yr ymgynghorydd cyfreithiol. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn anelu at ddarparu'r holl bapurau i'r Aelodau ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Ar ôl pob cyfarfod mae'r Ysgrifenyddiaeth yn sicrhau y caiff Adroddiadau'r Pwyllgor eu gosod gerbron y Cynulliad cyn gynted ag y bo modd, ar yr un diwrnod yn aml. Gosodir yr adroddiadau a'r cofnodion ar y fewnwyd a'r rhyngwyd o fewn dau ddiwrnod gwaith a'r nod hefyd yw anfon llythyrau oddi wrth y Cadeirydd o fewn y cyfnod hwnnw.

CYFLWYNIAD I ADOLYGIAD Y CYNULLIAD O DREFNIADAETH

Ar 12 Gorffennaf 2000 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru adolygiad i drafod sut yr oedd y Cynulliad wedi gweithredu yn ei flwyddyn gyntaf, ac i ganfod pa wersi y gellid eu dysgu oddi wrth hynny. Rhoddodd y Pwyllgor Deddfau gyflwyniad i Gr^wp Adolygiad o Drefniadaeth y Cynulliad gan awgrymu'r newidiadau canlynol:

- Dylid darparu gwybodaeth ar yr is-ddeddfwriaeth sydd i ddod i holl Aelodau'r Cynulliad bob hyn a hyn, ynghyd â chopi i'r Pwyllgor Deddfau;
- Dylid rhoi gwybodaeth reolaidd ac ar wahân i Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc ar is-ddeddfwriaeth sydd i ddod sy'n benodol i'w maes cyfrifoldeb;
- Dylid neilltuo mwy o amser i drafod cynigion am is-ddeddfwriaeth mewn pwyllgorau pwnc ac yn y Cyfarfod Llawn;
- Dylid newid y sail i adrodd yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(v) i gynnwys methiant i fodloni gofynion Rheolau Sefydlog a dylid rhoi rhestr wirio gyda Gorchymynion sy'n nodi'r camau y buont drwyddynt cyn cyrraedd y pwyllgor;
- Dylai fod yn ofynnol i'r Gweinidog roi eglurhad ynghylch pam yr oedd angen defnyddio'r weithdrefn weithredol;
- Dylai'r Pwyllgor Deddfau allu pennu a fyddai'n well ganddo dderbyn ateb ysgrifenedig i'w ymholiadau neu fynnu bod y Gweinidog yn ymbresenoli i roi'r esboniadau sydd eu hangen;
- Dylai fod yn ofynnol i'r Pwyllgor Deddfau gynhyrchu Adroddiad Blynyddol;
- Dylid darparu siart lif i holl Aelodau'r Cynulliad sy'n dangos yr holl gamau y gallai fod yn ofynnol i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y weithdrefn safonol fynd drwyddynt a dylid darparu gwybodaeth am hynt pob darn o ddeddfwriaeth ar y fewnwyd a'r rhyngwyd.

GWEITHGAREDDAU ERAILL

Ymweliad â Senedd yr Alban

Ymwelodd dirprwyaeth o'r Pwyllgor Deddfau a oedd yn cynnwys y Cadeirydd, Jocelyn Davies, Dai Lloyd, y ddau ymgynghorydd cyfreithiol a'r Clerc â Senedd yr Alban ddydd

Mawrth 5 Medi 2000. Pwrpas yr ymweliad oedd gweld Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban ar waith a chyfnewid barn ymhellach ar arferion a gweithdrefnau. Croesawyd y ddirprwyaeth gan y Dirprwy Lywydd a amlinellodd rai o brofiadau Senedd yr Alban hyd hynny a'i farn bersonol ar ganfyddiadau cyhoeddus. Wedyn daeth y Cynullydd ac aelodau o'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth at y ddirprwyaeth ar gyfer sesiwn briffio byr cyn eu cyfarfodydd preifat a chyhoeddus.

Bu cynrychiolwyr y Pwyllgor Deddfau yn bresennol yn y sesiynau preifat a chyhoeddus. Nodasant fod yr aelodau, wrth baratoi ar gyfer y cyfarfodydd, yn derbyn papur oddi wrth yr ymgynghorydd cyfreithiol a roddai gyngor ar bob darn o is-ddeddfwriaeth a oedd o dan ystyriaeth ynghyd ag unrhyw ddarpariaethau o bwerau dirprwyedig o fewn Mesur (a oedd yn wahaniaeth penodol rhwng pwyllgorau'r Alban a Chymru).

Gwelodd John Turnbull, Dylan Hughes a'r Clerc y Pwyllgor Ewropeaidd ar waith hefyd a gwrandawodd yr aelodau ar gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol.

Er mai'r casgliad oedd bod arferion a gweithdrefnau Pwyllgorau'r Alban a Chymru yn wahanol iawn, profodd yr ymweliad yn un buddiol a llawn gwybodaeth. Teimlai'r ymgynghorwyr cyfreithiol y byddai gwedd fwy proffesiynol ar adroddiadau'r Pwyllgor pe rhoddid logo'r Cynulliad arnynt, fel y gwneid yn yr Alban.

Ymweliad Cadeirydd y Pwyllgor â'r Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwygio Rheoleiddio, Rheoli ac Archwilio Deddfwriaeth

Ymwelodd Pwyllgor Adolygu Rheoleiddio Senedd De Cymru Newydd â'r Cynulliad ym mis Gorffennaf y llynedd a rhoesant wahoddiad i'r Pwyllgor Deddfau a'r Llywydd anfon cynrychiolydd i'r Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwygio Rheoleiddio, Rheoli ac Archwilio Deddfwriaeth.

Yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr 2001 cytunodd y Pwyllgor Deddfau y dylai Cadeirydd y Pwyllgor dderbyn gwahoddiad oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Adolygu Rheoleiddio Senedd De Cymru Newydd i fod yn bresennol yn y Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwygio Rheoleiddio, Rheoli ac Archwilio Deddfwriaeth i ddibenion adolygu dull y Pwyllgor a'r Cynulliad o archwilio ei is-ddeddfwriaeth.

Gan hynny, cymerodd Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau Mick Bates ran yn y Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwygio Rheoleiddio, Rheoli ac Archwilio Deddfwriaeth, a gynhaliwyd yn Sydney (Awstralia) yng Ngorffennaf eleni. Am nad oedd Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor, John Turnbull, yn gallu bod yn bresennol, dirprwywyd Mark Partridge o Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol i fynd gyda Mr. Bates. Ar ddydd Gwener, 13 Gorffennaf, rhoddodd Mr. Bates gyflwyniad o'r enw "Diwygio Rheoleiddio - Safbwynt Cymreig".

Roedd dirprwyaethau yn y Gynhadledd o San Steffan, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd dirprwyaeth Senedd y DU yn cynnwys yr Arglwydd Mayhew o Twysden, Mr. Peter Pike AS a Chlerc Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Dadreoleiddio T^y'r Arglwyddi Ms Philippa Tudor. Cynrychiolwyr Senedd yr Alban oedd Mr. David Mundell Aelod o

Senedd yr Alban (Ceidwadwr, De'r Alban), Mrs Margaret Macdonald, Uwch Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol, Swyddfa Ymgynghorydd Cyfreithiol Senedd yr Alban ac Alasdair Rankin, Clerc Pwyllgor. Roedd aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon, Danny Kennedy a Donovan McClelland ynghyd â Peter Hughes yn bresennol hefyd.

Y prif siaradwyr oedd Llywodraethwr De Cymru Newydd Ei Hardderchogrwydd yr Athro Marie Bashir AC, Prif Ustus Uchel Lys Awstralia yr Anrhydeddus Brif Ustus Murray Gleeson AC, Prif Ustus Goruchaf Lys De Cymru Newydd, Awstralia yr Anrhydeddus J Spigelman.

Ymdriniwyd â'r pynciau canlynol ymysg eraill yn y cyflwyniadau:

- Rheoleiddio ac Archwilio Deddfwriaeth yn y Dyfodol yn yr Eidal;
- Pan yw Digon yn Ddigon: Cyfyngiadau Pwerau Gwneud Rheoliadau;
- Heriau i Awstralia a'r Gymanwlad mewn Diwygio Rheoleiddio;
- Storiâu Arswyd Rheoleiddiol - yn Awstralia ac yn Rhyngwladol;
- Rôl y Senedd wrth Sicrhau Ansawdd Cyfraith a Rheoleiddio;
- Mesur Diwygio Rheoleiddiol y Deyrnas Unedig: Ei Effaith ar y Broses Dadreoleiddio;
- Y Diafol yn y Manylion - Safbwynt o Seland Newydd ar Archwilio Deddfwriaeth Ddirprwyedig;
- Polisi Rheoleiddio Cystadlu Cenedlaethol;
- Gwerthfawrogi Gwybodaeth y Gymuned - Technoleg Gwybodaeth, y We a'r Broses Archwilio;
- Rheolau, Egwyddorion a Sicrwydd Cyfreithiol mewn Rheoleiddio;
- Diwygio Rheoleiddiol - Safbwynt Cymreig (cyflwyniad gan Mr. Mick Bates AC);
- Cyfranogiad y Dinesydd mewn Gwneud Rheolau Deddfwriaethol: Effaith Ffederaliaeth a Rhyngwladoli;
- Ysbryd Archwilio: Doethineb yw'r Ffordd.

Trafodwyd amryw o bynciau mewn Gweithdai, gan gynnwys:

- Rheoleiddio ac Archwilio Deddfwriaeth yn y Dyfodol yn yr Eidal: Safbwynt Manwl;
- Pam y dylid Ailddyfeisio'r Olwyn a'r Model Gwasanaeth Awstralaidd yn Gweithio?
- Aseiad Effaith Reoleiddiol - Pryd, Sut a Pham;
- Rôl y Senedd wrth Sicrhau Ansawdd Cyfraith a Rheoleiddio - Safbwynt Manwl.

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi adroddiad manwl ar y Gynhadledd yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfau yn Hydref.

Cyflwyniad ar Wneud Deddfau a Chyfraith Ddwieithog gan y Cwnsler Cyffredinol

Ar ôl ei daith i Ganada y llynedd cynigiodd y Cwnsler Cyffredinol rannu gyda'r Pwyllgor Deddfau yr wybodaeth a gafodd yn ystod ei ymweliad ynghylch y dechneg "drafftio ar y cyd" a ddefnyddir gan gyfreithwyr drafftio deddfwriaethol yn Llywodraeth Ffederal

Canada. Gwahoddodd y Pwyllgor Deddfau Mr. Winston Roddick i roi ei gyflwyniad yn y cyfarfod ar 19 Mehefin 2001 a chynhaliwyd sesiwn hawl ac ateb pellach ar 17 Gorffennaf 2001.

Enw cyflwyniad y Cwnsler Cyffredinol oedd “Gwneud Deddfau a Chyfraith Ddwyieithog”. Ymdriniai â gwahanol agweddau ar baratoi deddfwriaeth ddwyieithog gan Lywodraeth Ffederal Canada a Llywodraeth Talaith New Brunswick. Mae system ddeddfu Canada yn seiliedig ar yr un a ddefnyddir ym Mhrydain. Eglurodd Mr Roddick fod y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd yn drafftio deddfwriaeth yn Saesneg a’i bod yn cael ei chyfieithu i’r Gymraeg wedyn. Fodd bynnag, yng Nghanada caiff y fersiynau Saesneg a Ffrangeg eu drafftio yr un pryd gan ddau gyfreithiwr sy’n gweithio gyda’i gilydd, bob un yn ei famiaith. Ymgymeryd â theithiau cyfnewid rhwng staff llywodraeth Canada a rhai’r Cynulliad Cenedlaethol.

CYNNWYS

LC118	Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000
LC119	Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000
LC120	Rheoliadau Cig (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2000
LC121	Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000
LC122	Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Cymru) 2000
LC123	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000
LC124	Rheoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) (Cymru) 2000
LC125	Rheoliadau Addysg (Gwahardd o'r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000
LC126	Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000
LC127	Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000
LC128	Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000
LC129	Rheoliadau'r Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2000
LC130	Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000
LC131	Rheoliadau Athrawon (Cofrestru Gorfodol) (Cymru) 2000
LC132	Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000
LC133	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) Diwygio (Cymru) 2000
LC134	Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Swyddogaethau Interim) 2000
LC135	Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2000
LC136	Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000
LC137	Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000
LC138	Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2000

LC139	Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2000
LC140	Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Offer Telathrebu) (Cymru) 2000
LC141	Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000
LC142	Gorchymyn Cadw Mincod (Cymru) 2000
LC143	Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio) (Cymru) 2000
LC144	Rheoliadau Cwotâu Cynhyrchion Llaeth (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2000
LC145	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) Diwygio (Rhif 2) (Cymru) 2000
LC146	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001
LC147	Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001
LC148	Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001
LC149	Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000
LC150	Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2000
LC151	Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid H^yn) (Cymru) 2000
LC152	Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2001
LC153	Rheoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2001
LC154	Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2001
LC155	Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) (Diwygio) 2001
LC156	Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC157	Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) (Cymru) 2001
LC158	Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001

LC159	Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC160	Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001
LC161	Rheoliadau Taliadau S^wn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001
LC162	Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001
LC163	Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) 2001
LC164	Rheoliadau Addysg (Cofnodion Disgyblion) (Cymru) 2001
LC165	Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001
LC166	Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001
LC167	Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC168	Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001
LC169	Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2001
LC170	Rheoliadau Taliadau Cymunedol, Y Dreth Gyngor ac Ardrethu Annomestig (Gorfodi) (Llysoedd Ynadon) (Cymru) 2001
LC171	Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001
LC172	Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro) (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2001
LC173	Rheoliadau'r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001
LC174	Rheoliadau Cyfyngu Pithio (Cymru) 2001
LC175	Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001
LC176	Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001
LC177	Rheoliadau Darpariaethau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2001
LC178	Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001
LC179	Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2001
LC180	Rheoliadau'r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) 2001
LC181	Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2001
LC182	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl Cosb) (Cymru) 2001
LC183	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau gan Awdurdodau Lleol i Awdurdodau Iechyd (Swyddogaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2001

LC184	Rheoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) (Cymru) 2001
LC185	Rheoliadau Tai (Cadw'r Hawl i Brynu) (Diwygio) (Cymru) 2001

LC186	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2001
LC187	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) 2001
LC188	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2001
LC189	Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion wedi'u Cymeradwyo) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC190	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2001
LC191	Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2001
LC192	Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001
LC193	Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Diwygio) (Cymru) 2001
LC194	Rheoliadau Addysg (Safonau Maeth Cinio Ysgol) (Cymru) 2001
LC195	Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 2001
LC196	Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001
LC197	Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2001
LC198	Rheoliadau Cig (Hylendid ac Archwilio) (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC199	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001
LC200	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2001/2002) (Cymru) 2001
LC201	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) a (Ffioedd Deintyddol) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC202	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC203	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001
LC204	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC205	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC206	Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) 2001
LC207	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 2) (Cymru) 2001
LC208	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 3) (Cymru) 2001
LC209	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 3) 2001
LC210	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 4) 2001
LC211	Cynllun Grantiau Ailstrwythuro'r Diwydiant Moch (Cymru) 2001
LC212	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Canfod Gwerth) (Cymru) 2001

LC213	Rheoliadau Tir Mynydd (Daliadau Trawsffiniol) (Cymru) 2001
LC214	Rheoliadau Fformwla Fabanod a Fformwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2001
LC215	Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Diwygio) (Cymru) 2001
LC216	Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2001
LC217	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Canfod Gwerth) (Cymru) (Rhif 2) 2001
LC218	Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001
LC219	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Canfod Gwerth) (Cymru) (Rhif 3) 2001
LC220	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Canfod Gwerth) (Cymru) (Rhif 4) 2001
LC221	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 4) (Diwygio) 2001
LC222	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 5) 2001
LC223	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 3) (Diwygio) 2001
LC224	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 4) (Diwygio) 2001
LC225	Gorchymyn Gwyniaid Rhy Fach (Diddymu) (Cymru) 2001
LC226	Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) (Diddymu) (Cymru) 2001
LC227	Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC228	Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC229	Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001
LC230	Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2001
LC231	Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Rhif 2) (Cymru) 2001
LC232	Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001
LC233	Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001
LC234	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 5) (Cymru) 2001
LC235	Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2001
LC236	Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001
LC237	Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) 2001
LC238	Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001
LC239	Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygio) (Cymru) 2001

LC240	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC241	Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC242	Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Cynigion a Gorchmynion Drafft) (Corfforaethau Addysg Bellach) (Cymru) 2001
LC243	Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2001
LC244	Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2001
LC245	Rheoliadau Cig (Pwerau Gorfodi Ehangach) (Cymru) 2001
LC246	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC247	Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2001
LC248	Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001
LC249	Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2001
LC250	Rheoliadau Gofalwyr (Gwasanaethau) a Thaliadau Uniongyrchol (Diwygio) (Cymru) 2001
LC251	Gorchymyn Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001
LC252	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2001
LC253	Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2001
LC254	Rheoliadau Plant Anabl (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2001
LC255	Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2001
LC256	Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC257	Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) 2001
LC258	Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001
LC259	Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001
LC260	Gorchymyn Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2001
LC261	Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001
LC262	Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Cynhyrchion Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001
LC263	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 6) (Cymru) 2001
LC264	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 6) (Cymru) (Diwygio) 2001
LC265	Gorchymyn Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Cymru) 2001
LC266	Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC267	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 6) 2001
LC268	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 7) 2001
LC269	Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001

LC270	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001
LC271	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001
LC272	Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001
LC273	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001
LC274	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001
LC275	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001
LC276	Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Trwyddedau Brys) (Cymru) 2001
LC277	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 7) (Diwygio) 2001
LC278	Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001
LC279	Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001
LC280	Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001
LC281	Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001
LC282	Rheoliadau Cod Ymddygiad (Cyflogeion Anghymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001
LC283	Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001
LC284	Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001
LC285	Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) 2001
LC286	Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001
LC287	Rheoliadau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a Chomisiynydd Lleol yng Nghymru (Swyddogaethau a Threuliau) 2001
LC288	Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001
LC289	Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001
LC290	Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2001
LC291	Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Addysg Bellach) (Cymru) 2001
LC292	Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001
LC293	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2001
LC294	Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2001
LC295	Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001

LC296	Rheoliadau Addysg (Cyrff Sefydledig) (Cymru) 2001
LC297	Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001
LC298	Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001
LC299	Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd 1995 (Cychwyn a Darpariaeth Arbed Tir Halogedig) (Cymru) 2001.
LC300	Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001
LC301	Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (Cychwyn) 2001
LC302	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2001
LC303	Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC304	Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyr) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC305	Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001
LC306	Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001
LC307	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC308	Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC309	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001
LC310	Gorchymyn Etholiadau Lleol (Cymru) 2001
LC311	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 8) 2001
LC312	Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 8) 2001
LC313	Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn rhag Tramgwyddwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC314	Rheoliadau Porthiant a Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2001
LC315	Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) (Diddymu) 2001
LC316	Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Gwahardd Brechu) (Cymru) 2001
LC317	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001
LC318	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001
LC319	Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhif 2) 2001

LC118	Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2335 (Cy.152))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 10 Hydref 2000

Adroddodd y Pwyllgor i'r Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 fod angen eglurhad pellach ar reoliadau 7(4) a 14. Gwnaethant nifer o sylwadau cyffredinol ar bwyntiau a oedd yn rhai teipograffyddol yn y bôn.

LC119 Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2330(Cy.148))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 10 Hydref 2000

Gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol y gallai geiriad Erthygl 4(4) fod yn eglurach.

LC120 Rheoliadau Cig (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2257(Cy.150))

Considered by the Legislation Committee on: 10th October 2000

A number of general observations were made in relation to points which had previously been drawn to the attention of the drafters of the legislation.

LC121 The Local Government Act 2000 (Commencement) (Wales) Order 2000 (SI 2000 No.2948 (W.189)(C.86))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 10 Hydref 2000

Gwnaethpwyd nifer o sylwadau cyffredinol mewn perthynas â phwyntiau a oedd wedi eu dwyn i sylw drafftwyd yr ddeddfwriaeth o'r blaen.

LC122 Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2560(Cy.169))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 10 Hydref 2000

Gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol ar bwynt penodol o arddull drafftio.

LC123 Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2992(Cy.192)(C.93))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 10 Hydref 2000

Ni wnaethpwyd sylwadau ar y rheoliadau hyn. Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan ganfuwyd rhai gwallau a'u cywiro wedi hynny.

LC124 Rheoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2906(Cy.186))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 10 Hydref 2000

Ni wnaethpwyd sylwadau ar y rheoliadau hyn. Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan ganfuwyd rhai gwallau a'u cywiro wedi hynny.

LC125 Rheoliadau Addysg (Gwahardd o'r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3026(Cy.194))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 17 Hydref 2000

Ni wnaethpwyd sylwadau ar y rheoliadau hyn. Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan ganfuwyd rhai gwallau a'u cywiro wedi hynny.

LC126 Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3027(Cy.195))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 17 Hydref 2000

Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan ganfuwyd rhai gwallau a'u cywiro wedi hynny. Roedd un pwynt o wybodaeth yn ymwneud â dehongli rheoliadau 4(4) a 5(4)(b).

LC127 Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2991(Cy.191)(C.92))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 17 Hydref 2000

Gwnaeth y Pwyllgor dri o fân sylwadau cyffredinol.

LC128 Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2993(Cy.193))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 17 Hydref 2000

Gwnaeth y Pwyllgor dri o fân sylwadau cyffredinol gan gynnwys gwall teipograffyddol bach.

LC129 Rheoliadau'r Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2959(Cy.190))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 24 Hydref 2000

Nododd y Pwyllgor nifer o bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.12A.

LC130 Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2540 (Cy.163)(C.70))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 31 Hydref 2000

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC131 Rheoliadau Athrawon (Cofrestru Gorfodol) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3122(Cy.200))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 31 Hydref 2000

Nid oedd yn rhaid i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5, ond gwnaeth sylw ar iaith niwtral o ran y rhywiau a'r problemau posibl o ran y Gymraeg.

LC132 Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000 (SI 2000 No.3121(Cy.199))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 7 Tachwedd 2000

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol mewn perthynas â'r defnydd o'r term "relevant children" a ddiffiniwyd yn Rheoliad 1(2) ac a ddefnyddiwyd yn Rheoliad 2(2)(b). Teimlwyd y buasai gair heblaw "relevant" yn briodol, gan ei bod yn ymddangos bod y term penodol hwn yn cau allan rhai plant.

LC133 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) Diwygio (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3118 (Cy.197))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 7 Tachwedd 2000

Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle yn gynnar i wneud sylwadau ar y Rheoliadau hyn ac roedd un pwynt drafftio wedi'i gywiro o ganlyniad i hynny. Felly, nid oedd yn rhaid i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

Yn yr un modd, roedd rhai mân bwyntiau a wnaethpwyd gan yr ymgynghorwyr cyfreithiol wedi'u cynnwys hefyd, ond, er hynny, roedd yn rhaid i'r Pwyllgor dynnu sylw at rai mân bwyntiau a oedd yn aros, fel gwall yn y frawddeg olaf ym mharagraff olaf ond un y Nodyn Eglurhaol a dau wall teipograffyddol bach iawn.

LC134	Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Swyddogaethau Interim) 2000 (SI 2000 No.2539 (Cy.162))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 14 Tachwedd 2000

Arwyddwyd y gorchymyn hwn ar 15 Medi 2000, ond yn groes i Reol Sefydlog 22.26 nis cyflwynwyd i'r Pwyllgor. Felly gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(v) ar sail methu â bodloni gofynion statudol neu ofynion cyfreithiol eraill.

Cafodd ymgynghorydd cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Gorchymyn a gwnaeth rai mân sylwadau a gymerwyd i ystyriaeth.

LC135	Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.2659(Cy.172))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 21 Tachwedd 2000

Ystyriwyd y Rheoliadau hyn gan y Pwyllgor Deddfau yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd 2000. Gwahoddodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau mewn perthynas â thorri Rheol Sefydlog 22.26 (sy'n mynnu bod deddfwriaeth a wneir o dan y weithdrefn frys yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau "cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud") a methiant i gydymffurfio ag adran 2(1) o'r Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (sy'n mynnu y caiff offerynnau eu cyhoeddi "cyn gynted â phosibl" ar ôl eu gwneud a'u cofrestru).

Yn unol â'r weithdrefn osodedig, gwahoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y Gweinidog Mr Carwyn Jones AC i wneud sylw ar y materion hyn. Cytunodd y Gweinidog fod yr oedi cyn cyhoeddi yn annerbyniol, er bod hynny o ganlyniad i'r anawsterau â'r broses argraffu a brofwyd gan swyddogion y Cynulliad. Adroddodd y Pwyllgor yn ffurfiol i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i'r offeryn yn hyn o beth.

Mewn perthynas â thorri Rheol Sefydlog 22.26, er bod y Gweinidog yn derbyn bod achos o beidio â chydymffurfio wedi bod, awgrymodd nad oedd yr achos hwn yn berthnasol i b^wer archwilio'r Pwyllgor. Nodwyd mai sail y gosodiad hwnnw oedd adran 58(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd amheuaeth gan y Pwyllgor y dylai allu dwyn i sylw'r Cynulliad y ffaith nad oedd offeryn wedi'i gyflwyno iddo o fewn y cyfnod a ragwelwyd yn Rheol Sefydlog 22.26. Gan hynny, roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol adrodd i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i'r methiant hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 22.26.

LC136	Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3156 (Cy.205))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 14 Tachwedd 2000

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Gwnaeth y Pwyllgor ddau fân sylw cyffredinol.

LC137	Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3294 (Cy.216))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 14 Tachwedd 2000

Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau ac o ganlyniad roedd gwallau drafftio a fuasai wedi'u codi yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 wedi'u cywiro. Yn yr un modd, roedd nifer o wallau teipograffyddol a ganfuwyd wedi'u cywiro hefyd.

LC138	Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3230 (Cy.213)(C.103))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 14 Tachwedd 2000

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorydd cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Gorchymyn a gwnaeth rai mân sylwadau a gymerwyd i ystyriaeth.

LC139 Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2000 (SI 2000 No.3382 (Cy.220))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 28 Tachwedd 2000

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyfyngu'r pwerau galluogi i nodi'r isadrannau perthnasol a chywiro'r cyfeiriad o "Article 2" i "Regulation 2". Canfuwyd dau wall teipograffyddol. Roedd y gwallau teipograffyddol a'r cyfeiriad at "Article 2" i'w newid wrth argraffu.

LC140 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Offer Telathrebu) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3383 (Cy.221))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 28 Tachwedd 2000

Ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau ar y Rheoliadau hyn. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynnar pan ganfuwyd rhai gwallau a'u cywiro wedyn.

LC141 Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 28 Tachwedd 2000

Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i wneud sylwadau ar y rheoliadau ac o ganlyniad penderfynwyd ar nifer o faterion a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 a gwnaethpwyd newidiadau. O dan sylwadau cyffredinol argymhellodd y Pwyllgor y dylid newid y Nodyn Eglurhaol i'w gysoni â Rheoliad 3, gan roi Rheoliad 2 ar ffurf rhestr o "amodau" (gan ychwanegu "s" a oedd yn eisiau ar ddiwedd "condition" yn Rheoliad 2(3)) a chynnwys darpariaeth a fyddai'n sicrhau bod y Rheoliadau yn cydymffurfio ag adran 108(2)(a) a (c) cyn gynted ag y gwneid rheoliadau o dan adran 104.

LC142 Gorchymyn Cadw Mincod (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3340 (Cy.218))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Rhagfyr 2000

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol argymhellodd y Pwyllgor y dylid gwneud newidiadau i'r nodyn eglurhaol a'r pennawd, a gwnaethpwyd y rhain ar adeg argraffu.

LC143 Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3341(Cy.219))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Rhagfyr 2000

Nododd y Pwyllgor bwynt drafftio diffygiol a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.12A. Hefyd, o dan sylwadau cyffredinol argymhellodd y Pwyllgor nifer o fân gywiriadau i'r Nodyn Eglurhaol ac Atodlen 1A, yr angen i gael cyfatebiaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg yn Rheoliad 1, i newid y geiriad agoriadol yn Rheoliad 2 ac i ddynodi 30 Mehefin 2001 yn "the later date" yn Rheoliad 5(2).

LC144 Rheoliadau Cwotâu Cynhyrchion Llaeth (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2000 (SI 2000 No.3123(Cy.201))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Rhagfyr 2000

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys Rheoliadau 9 a 10 yn y Nodyn Eglurhaol a chywiro Troednodyn (c) i ddangos bod y newidiadau ar gyfer Cymru wedi'u gwneud drwy S.I. 2000/972 (Cy.42).

LC145 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) Diwygio (Rhif 2) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3119 (Cy.198))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Rhagfyr 2000

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC146 Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.139 (Cy.5)(C.7))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Rhagfyr 2000

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.

LC147 Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001 (SI 2001 No.140 (Cy.6))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Rhagfyr 2000

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Fodd bynnag, argymhellwyd y dylid cyflwyno cywiriadau pellach: gwneud pob brawddeg yn baragraff ar wahân yn y Nodyn Eglurhaol, hepgor y rhifo (1) o Reoliad 2, a dileu'r rhifo (1) yn y Rheoliad 3B a fewnosodwyd.

LC148 Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001 (SI 2001 No.343 (Cy.15))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Rhagfyr 2000

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. yn amodol ar gywiro'r cyfeiriadau yn y diffiniadau at "Regulation 12(11)(a).", y gellid ei wneud drwy Femorandwm Cywiriadau. Mewn perthynas â sylwadau cyffredinol, cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Fodd bynnag, argymhellwyd y dylid cyflwyno cywiriadau pellach ym Mharagraffau 7(d), 2, 5, 6, 8, 8(f), 9, 9(c) a 10 yn y Nodyn Eglurhaol, Rheoliadau 1, 2(1), 12(10)a, 12(11)a, 18, 19, 24, 26, 27, 27(ch) a Throednodyn (1). Roedd y cywiriadau'n ymwneud ag atalnodi, sillafu geiriau Cymraeg, hepgor rhifo a diffyg cyfatebiaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

LC149 Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3388 (Cy.225))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 16 Ionawr 2001

Ystyriwyd y Rheoliadau hyn gan y Pwyllgor Deddfau yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2001. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bryd hynny, yn unol â Rheol Sefydlog 11.4, y dylid codi rhai cwestiynau gyda'r Gweinidog, mewn perthynas â:

- Rheoliad 3A (gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn fwriad i Reoliad 3A or-redeg y gwaharddiad yn Rheoliad 3 neu a oedd yn gweithredu yn yr achosion hynny lle nad oedd y gwaharddiad yn Rheoliad 3 yn berthnasol. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd yn fwriad i Reoliad 3A or-redeg y gwaharddiad yn Rheoliad 3);
- Absenoldeb y testun Cymraeg (egluodd y Gweinidog mai achos hynny oedd yr oedi cyn cyhoeddi'r Rheoliad Comisiwn a oedd, yn ei dro, wedi peri oedi wrth baratoi'r Rheoliadau drafft a chyflwyno rhai newidiadau pellach i'r testun Saesneg);
- Paragraff 2 o'r Nodyn Eglurhaol (roedd y profi i'w wneud drwy brawf cyflym cymeradwyedig a gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad bod cyfleusterau ar gyfer profi o'r fath yn bodoli yng Nghymru. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y cyfleusterau'n bodoli);
- Gofynnwyd i'r Gweinidog nodi i ba raddau y byddid yn ymgynghori o ystyried cyfyngiadau'r cyfnod amser a ddyrannwyd (nid oedd amser i baratoi cyfieithiad Cymraeg). Atebodd y Gweinidog fod y llythyr ymgynghori wedi'i anfon ar 21

Rhagfyr gan ofyn am sylwadau ar y Rheoliadau drafft erbyn 28 Rhagfyr a bod dau ateb wedi'i dderbyn;

- O ystyried natur dros dro y Rheoliad Comisiwn, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog gadarnhau y byddid yn diddymu'r Rheoliad 3A a fewnosodwyd er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth o ran ei effaith. Nododd y Gweinidog fod Rheoliad 3A wedi'i ddrafftio'n arbennig ar y sail nad oedd ond yn dramgwydd mynd yn groes i Erthygl 2.1 tra oedd yn aros mewn grym.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad, yng ngoleuni'r atebion a dderbyniwyd, nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig yn unol â Rheol Sefydlog 11.4. O dan sylwadau cyffredinol, nododd y Pwyllgor ddau wall teipograffyddol bach a chyfeiriad yn y Nodyn Eglurhaol.

LC150	Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2000 (SI 2000 No.3387 (Cy.224))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 16 Ionawr 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol, nododd y Pwyllgor ei bod yn ymddangos nad oedd paragraff cyntaf y Nodyn Eglurhaol yn ymdrin â'r cyfan o'r Deyrnas Unedig. Hefyd, dylid rhoi ar ddeall yn y Dyfyniad o Bwerau nad oedd yr un effaith eang i'r pwerau o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd ag i'r pwerau o dan adran 2(2) o'r Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd.

LC151	Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid H^yn) (Cymru) 2000 (SI 2000 No.3339 (Cy.217))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 16 Ionawr 2001

Nododd y Pwyllgor Deddfau bryderon posibl ynghylch drafftio'r Rheoliadau yng nghydestun gorfodi trawsffiniol, a daeth i'r casgliad y dylid rhoi gwybod am y rhain i'r Gweinidog Cynulliad priodol yn unol â Rheol Sefydlog 11.4. Gofynnwyd i'r Gweinidog:

- cadarnhau y gellid cymryd camau i orfodi'r Rheoliadau drwy erlyn neu fel arall o dan y Rheoliadau yn erbyn ceidwad sydd, er bod ganddo ddeiliadaeth neu wartheg yng Nghymru, yn preswyllo mewn man arall yn y Deyrnas Unedig;
- nodi a oedd y p^wer mynediad a roddir i arolygwyr drwy Reoliad 10(1) yn gyfyngedig i dir ac adeiladau o fewn Cymru;
- nodi a oedd yn fwriad i Reoliad 10(2)(b) - (e) roi pwerau mynediad, ac os felly i ba raddau, at gofnodion a gedwir y tu allan i Gymru mewn perthynas â gwartheg a deiliadaethau o fewn Cymru.

Cadarnhaodd y Gweinidog:

- y gellid dechrau achos am dramwydd a gyflawnwyd yng Nghymru yn erbyn rhywun a oedd yn preswyllo yn rhywle yn y Deyrnas Unedig;
- bod y p[^]wer mynediad yn Rheoliad 10(1) yn gyfyngedig i dir ac adeiladau yng Nghymru;
- awgrymodd nad oedd Rheoliad 10(2)(b) – (e) yn rhoi pwerau mynediad at gofnodion a gedwir y tu allan i Gymru, ar ôl nodi, er hynny, y dylid cadw cofnodion ar y ddeiliadaeth gofrestredig ac y byddid yn gwneud arolygiadau ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth yn achos deiliadaethau trawsffiniol.

Mae ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi ceisio cyfarwyddyd pellach ar y sefyllfa sy'n codi mewn perthynas â deiliadaeth y mae'r cyfan ohoni o fewn Cymru ond y cedwir cofnodion ar ei chyfer mewn adeilad y tu allan i Gymru. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar yr esboniadau a roddwyd, ac ni chododd unrhyw faterion pellach o dan Reol Sefydlog 11.5.

Mewn perthynas â sylwadau cyffredinol, tynnwyd sylw at dair problem fach mewn perthynas â'r testun Cymraeg.

LC152	Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.833 (Cy.38))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 30 Ionawr 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor bum gwall teipograffyddol.

LC153	Rheoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.891 (Cy.42))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 30 Ionawr 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau drafftio bach a gywirwyd yn y drafft terfynol. Fodd bynnag, argymhellwyd y dylid egluro rhai pwyntiau o fewn Rheoliad 2(1) "Definitions" ymhellach: dylid newid "education strategic plan" er mwyn cael diffiniad Cymreig sefydledig o "education development plan" ac mewn perthynas â'r term "named person" dylid egluro nad cynnwys dogfen a olygid wrth hynny ond gofyniad am benodi "named person" yn unol â'r darpariaethau statudol mewn perthynas â phenodiadau o'r fath.

LC154	Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.890 (Cy.41))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 30 Ionawr 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau drafftio bach a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.

LC155 Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.889 (Cy.40))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 30 Ionawr 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.

LC156 Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) (Diwygio) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Chwefror 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen cyfuno fersiynau Cymraeg a Saesneg y Rheoliadau hyn yn un ddogfen ar gyfer ei chyhoeddi. Hefyd, roedd gwall teipograffyddol ym mharagraff cyntaf testun Cymraeg y Nodyn Eglurhaol yr oedd angen ei gywiro.

LC157 Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1075 (Cy.51))

Considered by the Legislation Committee on: 6th February 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol. Fodd bynnag, roedd rhai pwyntiau teipograffyddol yr oedd angen eu cywiro ymhellach: yn ail baragraff y Nodyn Eglurhaol roedd "ddibenion" wedi'i gamsillafu ac roedd atalnod llawn amhriodol ar ôl "Service", ac yn Rheoliad 1(1) ni ddylai "1 Ebrill 2001" fod mewn teip du.

LC158 Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.495 (Cy.22))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Chwefror 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen cyfuno fersiynau Cymraeg a Saesneg y Rheoliadau yn un ddogfen ar gyfer ei chyhoeddi.

LC159 Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1109 (Cy.53))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Chwefror 2001

Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynnar o'r Rheoliadau hyn a nodasant nifer o bwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol ac felly nid oedd pwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nodwyd bod angen cyfuno'r Gymraeg a'r Saesneg yn un ddogfen ar gyfer ei chyhoeddi.

LC160 Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001 (SI 2001 No.496 (Cy.23))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Chwefror 2001

Nododd y Pwyllgor nifer o bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. Roedd y pwyntiau hynny yn Rheoliad 1(1), Rheoliad 2(1) "tir porthiant/forage land", Rheoliad 3(1)(a) - (d), Rheoliad 6(2), Rheoliad 8 - paragraffau (e) (testun Saesneg) a (d) (testun Cymraeg), Rheoliad 12(a), Rheoliad 13 a (c) (testun Cymraeg). Hefyd canfu'r Pwyllgor nifer o wallau teipograffyddol/gramadegol a gwelliannau drafftio y dylid eu cynnwys yn y Memorandwm Cywiriadau ond nad oeddent yn ddigon difrifol i adrodd arnynt yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC161 Rheoliadau Taliadau S^wn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.604 (Cy.27))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Chwefror 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor nifer o wallau teipograffyddol a oedd i'w cywiro cyn cyhoeddi. Roedd y gwallau teipograffyddol yn y Nodyn Eglurhaol (paragraff cyntaf), Rheoliad 10 (cf "payments" yn Nhrefniant y Rheoliadau a "payment" yn y pennawd yn y testun), Rheoliad 1(1) (2000 sydd yn y teitl a ddyfynnir yn hytrach na 2001), Rheoliad 4 ("in" wedi'i gamsillafu), Rheoliad 7(3) (Paragraff (3)).

LC162 Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.203 (Cy.9)(C.10))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Chwefror 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor y dylid dileu'r ddarpariaeth dod i rym ar ben y Gorchymyn ar y fersiwn a oedd i'w anfon at Lyfrfa Ei Mawrhydi i'w gofrestru ac at yr argraffwyr i'w argraffu.

LC163 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Chwefror 2001

Nododd y Pwyllgor bwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: cyflwynwyd y Gorchymyn heb fewnosod y dyddiad dod i rym. Ar yr amod y gwneid hynny, nid oedd unrhyw bwyntiau eraill a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol, y gellid eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau hefyd: cyfeirio diffygiol yn adran 10(1) o'r Nodyn Eglurhaol a rhai anghysondebau ym mhumed/chweched paragraff y Nodyn Eglurhaol; gwall teipograffyddol yn y testun Cymraeg; yr angen am fwy o eglurder yn adran 10 o'r Rhaglith a diffyg adroddiad i ddangos cydymffurfriad ag adran 8(3); diffyg eglurder yn y cyfeiriadau at "Secretary of State" yn y newidiadau; gwallau teipograffyddol ym mharagraffau 1 a 3 i'r Atodlen.

LC164 Rheoliadau Addysg (Cofnodion Disgyblion) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.832 (Cy.37))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Chwefror 2001

Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynnar o'r Rheoliadau hyn a nodasant nifer o bwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol ac felly nid oedd pwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nodwyd bod angen mwy o eglurder yn Rheoliad 3(1).

LC165 Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.607 (Cy.30))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Chwefror 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol.

LC166 Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001 (SI 2001 No.275 (Cy.11))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Chwefror 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol, nododd y Pwyllgor rifo diffygiol yn y Nodyn Eglurhaol a'r angen am fwy o eglurder yn y testun Cymraeg.

LC167 Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Chwefror 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC168 Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Ni wnaethpwyd unrhyw sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol.

LC169 Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.1111 (Cy.55))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Ni wnaethpwyd unrhyw sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC170 Rheoliadau Taliadau Cymunedol, Y Dreth Gyngor ac Ardrethu Annomestig (Gorfodi) (Llysoedd Ynadon) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1076 (Cy.52))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Ni wnaethpwyd unrhyw sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC171 Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1263 (Cy.70))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Roedd y Rheoliadau hyn yn cynnwys anghysondeb yn y testun Cymraeg a Saesneg (Rheoliad 3) y gellid ei gywiro drwy Femoradwm Cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.13. Ar yr amod y gwneid hynny, nid oedd unrhyw bwyntiau eraill a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor wall teipograffyddol yn y Nodyn Eglurhaol (Paragraff 2(d)) a phroblem bosibl gyda'r dyddiad gwneud.

LC172 Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro) (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1153 (Cy.60))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

LC173 Rheoliadau'r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1332 (Cy.82))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Canfu'r Pwyllgor nifer o ddiffygion drafftio o dan y penawdau:

- Dod i rym a Rheoliad 1;
- Rheoliad 14;
- Atodlen – paragraff 2

a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 ac a oedd yn rhai yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. O dan sylwadau cyffredinol, nododd y Pwyllgor anghysondebau yn y testunau Cymraeg a Saesneg, gwallau gramadegol a chamgymeriadau teipograffyddol y gellid eu cywiro hefyd drwy Femorandwm Cywiriadau.

LC174 Rheoliadau Cyfyngu Pithio (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1303 (Cy.80))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol, nododd y Pwyllgor un mân wall teipograffyddol ac un pwynt yr oedd angen ei egluro ymhellach.

LC175 Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1361 (Cy.89))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.13. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor rai mân bwyntiau teipograffyddol y gellid eu cywiro un ai drwy eu cynnwys yn y Memorandwm Cywiriadau neu wrth argraffu.

LC176	Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1440 (Cy.102))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror nododd y Pwyllgor Deddfau ddau bwynt yr oedd y Rheoliadau, fel y'u gosodwyd gerbron y Cynulliad ar y pryd, yn ymddangos yn ddiffygiol o'u herwydd. Roedd y drafft diwygiedig wedi'i osod gerbron y Cynulliad wedyn yn lle'r drafft gwreiddiol, a'r pwyntiau hyn wedi'u cywiro'n briodol, er y sylwyd nad oedd y Rheoliadau fel y'u gosodwyd gerbron y Cynulliad yn cynnwys testun Cymraeg o'r Atodlen.

O dan sylwadau cyffredinol, nododd y Pwyllgor anghysondeb yn y testunau Cymraeg a Saesneg, y gellid ei gywiro hefyd drwy Femorandwm Cywiriadau.

LC177	Rheoliadau Darpariaethau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1232 (Cy.66))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Nododd y Pwyllgor nifer o bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.13: yr oedd Rheoliadau Lloegr wedi'u hystyried gan y Cyd-bwyllgor Seneddol ar Offerynnau Statudol, a gododd nifer o bwyntiau. Yn Rheoliadau Cymru, dim ond y pwynt ym mharagraff 11 o'u Hadroddiad a gymerwyd i ystyriaeth. Gan hynny, roedd y Pwyllgor yn gorfod cofnodi bod yr holl eitemau eraill o ddrafftio diffygiol a adroddwyd gan y Cyd-bwyllgor yn golygu drafftio diffygiol yn Rheoliadau Cymru yn yr un modd. Yn ogystal â hynny, roedd y pwynt a nodwyd ym mharagraff 9 o Adroddiad y Cyd-bwyllgor yn fater yr oedd angen adrodd arno fel un yr oedd angen eglurhad arno. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor rai mân gamgymeriadau teipograffyddol.

LC178	Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1274 (Cy.73)(C.46))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Chwefror 2001

Nododd y Pwyllgor ddau bwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: hepgorwyd "section 30(1) of the Education Act 1997" a "subsection (3)" o'r testun Cymraeg yn Rhan I o'r Atodlen ac roedd y gair "Neddf" wedi'i gamsillafu yn Rhan II o'r Atodlen. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor gamgymeriad teipograffyddol yn y pennawd, yr angen am fwy o eglurder yn nhrydydd paragraff y Nodyn Eglurhaol a nifer o gamgymeriadau teipograffyddol yn y 14eg paragraff, y tabl a Rhan 1 o'r Atodlen.

LC179 Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.423 (Cy.17))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol. O dan sylwadau cyffredinol nodwyd rhai mân wallau teipograffyddol, a oedd i'w cywiro yn y fersiwn a gyhoeddir.

LC180 Rheoliadau'r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) 2001 (SI 2001 No.424 (Cy.18))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Mawrth 2001

LC181 Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.429 (Cy.19))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen gwella fformat y Rheoliadau (roedd angen ailfabwysiadu Rheoliadau 1995 a newidiadau 1996 yn eu cyfanrwydd); troednodyn i nodi'r trosglwyddiad swyddogaethau yr oedd angen ei ychwanegu at y Rhaglith ac roedd angen cywiro'r rhif SI anghywir yn y Diffiniad o "the 1996 Regulations".

LC182 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl Cosb) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1300 (Cy.77))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor wall teipograffyddol bach yn Troednodyn.

LC183 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau gan Awdurdodau Lleol i Awdurdodau Iechyd (Swyddogaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1543 (Cy.108))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol.

LC184 Rheoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1360 (Cy.88))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol.

LC185 Rheoliadau Tai (Cadw'r Hawl i Brynu) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1301 (Cy.78))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Mawrth 2001

Ni wnaethpwyd unrhyw sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC186 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.559 (Cy.24))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 6 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol.

LC187 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.572 (W.26))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nodwyd na wnaethpwyd y Gorchymyn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer ei baratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Deëllir, fodd bynnag, y caiff cyfieithiad ei gyhoeddi yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 23.13.

LC188 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Mawrth 2001

LC189 Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion wedi'u Cymeradwyo) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.641 (W.31))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Nodwyd na wnaethpwyd y Gorchymyn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer ei baratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Deëllir, fodd bynnag, y caiff cyfieithiad ei gyhoeddi yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 23.13.

LC190	Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2001
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Mawrth 2001

LC191	Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1231 (Cy.65))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 13 Mawrth 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: roedd y dyddiad dod i rym wedi'i adael allan o'r pennawd ac o Erthygl 1(1).

Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol hefyd er mwyn cael mwy o eglurder.

LC192	Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1410 (Cy.96)(C.50))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC193	Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1439 (Cy.101))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

The Committee did not identify any points reportable under S.O. 11.5. The legal advisers to the Committee had an early opportunity to consider the Regulations and identified a number of points which had been corrected in the final draft.

LC194	Rheoliadau Addysg (Safonau Maeth Cinio Ysgol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1784 (Cy.126))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor yr angen am fwy o eglurder yn Rheoliad 4(3).

LC195	Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 2001 (SI 2001 No.1438 (Cy.100))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor y dylid peidio â defnyddio 'a oedd' yn ailadroddol yn y testun Cymraeg yn Atodlen 2, er mwyn sicrhau mwy o eglurder.

LC196	Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001 (SI 2001 No.1424 (Cy.99))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol. Fodd bynnag, roedd y drafft o reoliad 9 yn wahanol i'r ffurf wreiddiol.

Barnwyd bod y cyfeiriad 9(2)(b) at arfer pwerau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 218(6) o'r Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn ddiffygiol. Roedd y camgymeriad hwnnw i'w gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

LC197	Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1337 (Cy.83))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod nifer o bwyntiau yn ddiffygiol yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 (drafftio diffygiol): ceir anghysondebau yn Atodlenni 1 - 1.1; 1 - 1.5; 3 - 3.1; 3 - 3.3; 3 - 3.5; 3 - 3.6; 4 - 4.2; 4 - 4.5; 4 - 4.8; 4 - 4.9; 6 - 6.4; 12 - 12.3 rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Roedd y diffygion hyn i'w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor nifer o wallau teipograffyddol/anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg/Saesneg (Atodlenni 1 - 1.1; 1 - 1.4; 1 - 1.10; 1 - 1.11; 1 - 1.16; 2 - 2.11; 2 - 2.13; 3 - 3.1; 3 - 3.3; 3 - 3.8; 3 - 3.9; 3 - 3.12; 4 - 4.1; 4 - 4.3; 4 - 4.4; 4 - 4.6; 4 - 4.7; 4 - 4.8; 4 - 4.10; 5 - 5.1; 5 - 5.5; 7 - 7.6; 8 - 8.1; 8 - 8.2; 10 - 10.1; 10 - 10.3; 11; 12; ; 12 - 12.2; 12 - 12.4), yr angen am fwy o

egllurder (Atodlenni 1 - 1.2 ; 2 - 2.12; 6 - 6.2; 8 - 8.2; 9 - 9.2), camgymeriadau gramadegol/arddulliol yn y testun Cymraeg (Atodlenni 1 - 1.5; 1 - 1.12; 1 - 1.16; 2 - 2.5; 2 - 2.11; 3 - 3.12; 4 - 4.1; 4 - 4.2; 4 - 4.8; 4 - 4.10; 5 - 5.1; 7 - 7.6; 10 - 10.3; 10 - 10.7; 11 - 11.2) ac yn y testun Saesneg (Atodlenni 4 - 4.7; 4 - 4.9; 6 - 6.9; 10 - 10.1). 4.7; 4 - 4.9; 6 - 6.9; 10 - 10.1).

LC198	Rheoliadau Cig (Hylendid ac Archwilio) (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1302 (Cy.79))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC199	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1358 (Cy.86))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC200	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2001/2002) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1287 (Cy.75))
-------	---

Considered by the Legislation Committee on: 20th March 2001

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC201	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) a (Ffioedd Deintyddol) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1359 (Cy.87))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC202	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1362 (Cy.90))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor wall teipograffyddol yn y Nodyn Eglurhaol (wythfed paragraff) a'r angen am fwy o eglurder ym mhennawd Rheoliad 6.

LC203 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1423 (Cy.98))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC204 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1396 (Cy.91))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC205 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1397 (Cy.92))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor wall teipograffyddol ar dudalen blaen yr Offeryn Statudol.

LC206 Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) 2001 (SI 2001 No.1338 (Cy.84))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 20 Mawrth 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: gellid bodloni'r angen i ddarparu ar gyfer sefyllfa lle y mae un neu ragor o'r cynghorau cyfansoddol yn anghytuno ynghylch y ffigur priodol ar gyfer y gyfradd chwyddiant flynyddol drwy newid geiriad yr Erthygl 17(3) newydd. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na ddylid cynnwys y gair "Wales" ar dudalen blaen y Nodyn Eglurhaol.

LC207 Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 2) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.879 (W.39))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer eu paratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Deallwyd, fodd bynnag, y câi cyfieithiad ei gyhoeddi yn ddiweddarach. Hefyd. roedd angen eglurhad pellach ar un pwynt yn Rheoliad 21, roedd angen i'r Nodyn

Eglurhaol gynnwys y dyddiad y byddai'r Rheoliadau'n weithredol hyd ato ac roedd angen mwy o eglurder yn y chweched paragraff.

LC208 Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 3) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1034 (W.48))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer eu paratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Deallwyd, fodd bynnag, y câi cyfieithiad ei gyhoeddi yn ddiweddarach. Hefyd, mewn perthynas â Rheoliad 22, anfonwyd ymholiad at y Gweinidog Cynulliad perthnasol i ofyn pam nad oedd y Cynulliad wedi'i grybwyll ymysg y cyrff sy'n gyfrifol am y ddyletswydd gorfodi. Roedd angen egluro rhai pethau yn y Nodyn Eglurhaol.

LC209 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 3) 2001 (SI 2001 No.968 (W.46))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer eu paratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Deallwyd na fyddid yn darparu cyfieithiad.

LC210 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 4) 2001 (SI 2001 No.1033 (W.47))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Mawrth 2001

Nododd y Pwyllgor achos o ddrafftio diffygiol a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 (rhifo paragraffau diffygiol). O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer eu paratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Deallwyd na fyddid yn darparu cyfieithiad. Argymhellwyd y dylid egluro rhai pwyntiau yn Atodlen 1 – Erthygl 37 ac yn Atodlen 2 yng nghyd-destun y bwriad i gyfuno Gorchymyn 1983. Roedd un gwall teipograffyddol yn aros i'w gywiro yn Atodlen 1, Erthygl 37B.

LC211 Cynllun Grantiau Ailstrwythuro'r Diwydiant Moch (Cymru) 2001 (SI 2001 No.643 (Cy.32))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 27 Mawrth 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol.

LC212 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Canfod Gwerth) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1127 (W.56))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Ebrill 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Gorchymyn hwn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer ei baratoi yn peri bod hynny'n anymarferol.

LC213 Rheoliadau Tir Mynydd (Daliadau Trawsffiniol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1154 (Cy.61))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Ebrill 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen eglurhad ar eiriad Rheoliad 3, bod gwall teipograffyddol yn Rheoliad 5(2), bod gwall gramadegol bach yn nhestun Cymraeg Rheoliad 7, bod angen eglurhad pellach ar Rheoliad 8.

LC214 Rheoliadau Fformwla Fabanod a Fformwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1690 (Cy.120))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Ebrill 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor sawl gwall teipograffyddol yn y Nodyn Eglurhaol a Rheoliad 2.

LC215 Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Diwygio) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Ebrill 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor ddau wall teipograffyddol yn y Nodyn Eglurhaol a'r Rhaglith.

LC216 Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1786 (Cy.127))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Ebrill 2001

Canfu'r Pwyllgor achos o ddrafftio diffygiol a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 (roedd y dyddiad dod i rym wedi'i adael allan). Dylid cywiro'r diffyg hwn drwy Femorandwm Cywiriadau. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor nifer o wallau teipograffyddol yn y testun Cymraeg.

LC217 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Canfod Gwerth) (Cymru) (Rhif 2) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Ebrill 2001

Disodlodd y Gorchymyn hwn, a wnaethpwyd o dan y weithdrefn weithredol ar 23 Mawrth, y Gorchymyn â'r un teitl a wnaethpwyd ar 22 Mawrth. Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Gorchymyn hwn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer ei baratoi yn peri bod hynny'n anymarferol.

LC218 Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1787 (Cy.128))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Ebrill 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor ddau wall bach yr oedd angen eu hegluro yn y Nodyn Eglurhaol (3ydd a 4ydd paragraff); camgymeriadau teipograffyddol yn Rheoliad 2 a Throednodyn (b); dau anghysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg yn Nhroednodyn (a).

LC219 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Canfod Gwerth) (Cymru) (Rhif 3) 2001 (SI 2001 No.1176 (W.62))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Ebrill 2001

Disodlodd y Gorchymyn hwn, a wnaethpwyd o dan y weithdrefn weithredol ar 26 Mawrth, y Gorchymyn â'r un teitl a wnaethpwyd ar 23 Mawrth. Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Gorchymyn hwn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer ei baratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Roedd angen eglurhad pellach ar y Nodyn Eglurhaol. Roedd y Pwyllgor wedi derbyn yr eglurhad a roddwyd yn yr Atodlen mewn perthynas â gwartheg a leddir.

LC220 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Canfod Gwerth) (Cymru) (Rhif 4) 2001 (SI 2001 No.1273 (W.72))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Roedd y Pwyllgor yn ei chael yn anodd pennu ystyr y cofnod yn yr Atodlen a gyfeiriai at “Breeding cows”. Cyfeiriwyd y mater at y Gweinidog Cynulliad perthnasol a roddodd yr esboniadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor. Wedi hynny, nid oedd yn rhaid i’r Pwyllgor dynnu sylw’r Cynulliad at unrhyw bwyntiadau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC221 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 4) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.1234 (W.67))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni chanfu’r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Gorchymyn hwn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer ei baratoi yn peri bod hynny’n anymarferol.

LC222 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 5) 2001 (SI 2001 No.1406 (W.93))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni chanfu’r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Gorchymyn hwn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer ei baratoi yn peri bod hynny’n anymarferol.

LC223 Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 3) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.1202 (W.63))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni chanfu’r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Gorchymyn hwn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer ei baratoi yn peri bod hynny’n anymarferol.

LC224 Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 4) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.1357 (W.85))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni chanfu’r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Gorchymyn hwn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer ei baratoi yn peri bod hynny’n anymarferol. Hefyd, roedd gwall teipograffyddol yn Rheoliad (2) (nid oedd y diffiniad o “National Assembly” wedi’i gynnwys); roedd angen newid y cyfeiriad at y Deyrnas Unedig ym

mharagraff (d) o Reoliad 6(3); roedd angen egluro rhai pwyntiau yn Rheoliad 22 (pam nad oedd y Cynulliad wedi'i grybwyll ymysg y cyrff sy'n gyfrifol am y ddyletswydd gorfodi) a dylai'r Nodyn Eglurhaol fod wedi nodi'r dyddiad pan fyddai'r Rheoliadau'n peidio â bod yn weithredol.

LC225 Gorchymyn Gwyniaid Rhy Fach (Diddymu) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2019 (Cy.140))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: roedd "(Wales)" heb ei gynnwys yn y dyfyniad yn Erthygl 1.

LC226 Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) (Diddymu) (Cymru) 2001 (SI 2018 No.1357 (Cy.139))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y Gorchymyn hwn.

LC227 Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1275 (Cy.74))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y Gorchymyn hwn.

LC228 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1203 (Cy.64))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor air a oedd ar goll yn ail baragraff y Nodyn Eglurhaol yn y ddau destun. Gellid cywiro'r gwall wrth argraffu.

LC229 Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1409 (Cy.95))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor rai geiriau coll yn Rheoliad 2(4).

LC230 Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1408 (Cy.94))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor wall teipograffyddol yn y troednodyn.

LC231 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Rhif 2) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1471 (Cy.97)(C.51))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i edrych ar ddrafft y Gorchymyn hwn a nodasant nifer o bwyntiau o sylw cyffredinol a gywirwyd yn y fersiwn a wnaethpwyd yn Orchymyn. Nododd y Pwyllgor fod rhai pwyntiau i'w cywiro o hyd wrth argraffu: camgymeriad mewn rhifo, gwall teipograffyddol yn y testun Cymraeg ac anghysondeb bach rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

LC232 Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1987 (Cy.138))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd o dan sylwadau cyffredinol, derbyniodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor yr esboniadau a roddwyd.

LC233 Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1272 (Cy.71))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 1 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor y byddai'n rhaid gwirio rhifau'r troednodiadau a oedd i'w mewnosod mewn pryd i'w mewnosod yn yr Offeryn Statudol a argreffir.

LC234 Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 5) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1500 (W.103))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Gorchymyn hwn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer ei baratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Hefyd, mewn perthynas â Rheoliad 22, anfonwyd ymholiad at y Gweinidog Cynulliad perthnasol i ofyn pam nad oedd y Cynulliad wedi'i grybwyll ymysg y cyrff sy'n gyfrifol am y ddyletswydd gorfodi. Nid oedd y diffiniad o "National Assembly" wedi'i gynnwys yn Rheoliad 2 ac ni nodwyd y dyddiad pan fyddai'r rheoliadau'n peidio â bod yn weithredol yn y Nodyn Eglurhaol.

LC235 Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1508 (W.105))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch sawl mater yr oedd angen eglurhad pellach arnynt yn unol â Rheol Sefydlog 11(iv): roedd angen eglurhad ar gyfeiriadau ym mharagraff (4) a fewnosodwyd yn Rheoliad 2 (2); paragraff (3) a fewnosodwyd yn Rheoliad 2 (3) a pharagraff 3 a fewnosodwyd yn Rheoliad 3 (4). Cyfeiriwyd y mater at y Gweinidog Cynulliad perthnasol a roddodd esboniadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor. Nid oedd angen wedyn i'r Pwyllgor dynnu sylw'r Cynulliad at unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor mai gwell fyddai defnyddio'r union ddyddiad yn hytrach na'r geiriau "coming into force date" yn y newidiadau i'r testun. Roedd gwall gramadegol bach hefyd yn Rheoliad 3 (3).

LC236 Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1506 (Cy.104))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Canfu'r Pwyllgor fater y gallai fod angen rhoi adroddiad arno yn unol â Rheol Sefydlog 11 (1) (gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o bwerau): nid oedd yn amlwg a oedd y term "a prescribed area" yn cyfeirio at Gymru gyfan ai peidio. Hefyd, roedd o ddiddordeb i'r Pwyllgor wybod enwau'r cyrff yr ymgynghorwyd â hwy cyn gwneud y rheoliadau. Cyfeiriwyd y mater at y Gweinidog Cynulliad perthnasol a roddodd esboniadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor. Nid oedd yn rhaid i'r Pwyllgor dynnu sylw'r Cynulliad at unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC237 Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) 2001 (SI 2001 No.2136 (Cy.149))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Canfu'r Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: ni phennwyd y dyddiad dod i rym.

LC238 Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2193 (Cy.155))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Canfu'r Pwyllgor sawl pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: mae'r diffiniad o "Community provision" yn anghyflawn; defnyddir y gair "analysis" drwy gamgymeriad yn lle "analyst"; roedd angen eglurhad pellach ar y diffiniad o "specified regions" (Rheoliad 2(1)).

LC239 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2071 No.1987 (Cy.143))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen rhoi gwedd fwy eglur ar fformat dwyieithog y Rheoliadau; roedd anghysondebau teipograffyddol rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg ym mhennawd y Nodyn Eglurhaol; roedd angen egluro un pwynt yn ail a thrydydd paragraff y Nodyn Eglurhaol ac roedd angen mewnosod cyfeiriad yn y testun Cymraeg a Saesneg yn y pedwerydd paragraff.

LC240 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2133 (Cy.148))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor y dylid newid yr holl gyfeiriadau 'FHSA' yn Rheoliad 5; roedd gwall teipograffyddol yn Rheoliad 7(4).

LC241 Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2072 (Cy.144))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor y byddai'n rhaid rhoi gwedd eglurach ar fformat dwyieithog y Rheoliadau ac y byddai angen mewnosod cyfeiriadau cyn cyhoeddi'r pedwerydd paragraff.

LC242 Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Cynigion a Gorchmynion Drafft)
(Corfforaethau Addysg Bellach) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2069
(Cy.141))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Nododd y Pwyllgor ddau bwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: roedd angen eglurhad pellach ar Reoliad 2(c) (roedd y geiriau cyfyngol “in the case of an existing institution” wedi’u gadael allan) ac yn Rheoliad 8(1) ni roddwyd teitl llawn y rheoliadau y cyfeirir atynt. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor wallau teipograffyddol yn y Nodyn Eglurhaol a Rheoliad 1(2).

LC243 Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2001 (SI 2001
No.2070 (Cy.142))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Ni wnaethpwyd sylw neu sylwadau cyffredinol ar y gorchymyn hwn.

LC244 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001
No.2073 (Cy.145))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 8 Mai 2001

Ni chanfu’r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen newid tri phwynt yn y Nodyn Eglurhaol ac un pwynt yn Rheoliad 8(c) er mwyn cael mwy o eglurder. Hefyd, yn Rheoliad 13(b) roedd gwall teipograffyddol a oedd i’w gywiro wrth argraffu.

LC245 Rheoliadau Cig (Pwerau Gorfodi Ehangach) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Mai 2001

Nododd y Pwyllgor sawl pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: ni phennwyd y dyddiad dod i rym yn y pennawd nac yn rheoliad 1(2); roedd anghysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg yn y Rhaglith; nid oedd angen mewnosod diffiniad o “The Agency” yn rheoliadau 2(2), 3(2), 4(2) a 5(2).

Roedd rhai materion bach hefyd y dylid eu cywiro hefyd un ai yn y Memorandwm Cywiriadau neu wrth argraffu. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor anghysondeb wrth gynnwys cyfeiriadau penodol i ddangos bod y rheoliad dan sylw yn

weithredol yng Nghymru yn unig. Hefyd, roedd angen eglurhad pellach ar reoliad 23 fel y'i hamnewidiwyd drwy reoliad 2(25).

LC246 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2359 (Cy.196))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y pwyllgor dri chamgymeriad teipograffyddol yn y Rhaglith (troednodyn (a)) ac yn Rheoliad 1 (2) (troednodiadau (a) a (b)).

LC247 Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2356 (Cy.194))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor gamgymeriadau teipograffyddol (rhifo diffygiol) yr oedd angen eu cywiro cyn cyhoeddi.

LC248 Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2197 (Cy.157))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Mai 2001

Nododd y Pwyllgor nifer o fân bwyntiau (teipograffyddol gan mwyaf) a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod iaith sy'n cyfeirio at ryw penodol wedi'i defnyddio yn Rheoliadau 7(2)(a)-(c) a 10(4).

LC249 Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Mai 2001

Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol. Fodd bynnag, roedd un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yn aros: nid oedd y dyddiad dod i rym wedi'i gynnwys (pennawd y rheoliadau a Rheoliad 1(2)). Roedd hynny i'w gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod y dyddiad dod i rym yn eisiau yn y Nodyn Eglurhaol hefyd.

LC250 Rheoliadau Gofalwyr (Gwasanaethau) a Thaliadau Uniongyrchol (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2186 (Cy.150))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Mai 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau (roedd y dyddiad dod i rym wedi'i adael allan o reoliad 1(1)). O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen mewnosod atalnod yn y teitl er mwyn sicrhau mwy o eglurder (gellid gwneud hynny wrth argraffu) ac y dylid cynnwys yr wybodaeth am y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn y Rhaglith - troednodyn (b).

LC251	Gorchymyn Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2196 (Cy.156)(C.72))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Mai 2001

Nododd y Pwyllgor ddau bwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau neu wrth argraffu'r Gorchymyn (roedd y dyddiad cychwyn wedi'i adael allan ac roedd penawdau'r Atodlenni'n anghyflawn). O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen eglurhad pellach ar Adran 12(2) o'r Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000.

LC252	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2190 (Cy.152)(C.70))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Mai 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau (roedd y dyddiad cychwyn wedi'i adael allan o'r Gorchymyn drafft). O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fân bwyntiau eraill yn y Nodyn Eglurhaol (paragraff 2), Erthygl 2 a'r Atodlen y dylid eu cywiro un ai yn y Memorandwm Cywiriadau neu wrth argraffu.

LC253	Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.2357 (Cy.195))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5, ac ni wnaeth unrhyw sylwadau cyffredinol.

LC254	Rheoliadau Plant Anabl (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2192 (Cy.154))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 15 Mai 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau (roedd y dyddiad cychwyn wedi'i adael allan o Reoliad 1(1)).

LC255 Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.2222 (Cy.160))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol.

LC256 Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2253 (Cy.163))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Nododd y Pwyllgor rai pwyntiau drafftio diffygiol a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau (mewniodwyd un gair yn anghywir yn y teitl yn y testun Cymraeg (Rheoliad 2); roedd angen eglurhad ar Rheoliad 5; roedd angen adolygu troednodiadau (h), (i), (k).

LC257 Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) 2001 (SI 2001 No.2219 (Cy.159))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen peth eglurhad pellach ar Rheoliadau 4(1) a 7.

LC258 Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001 (SI 2001 No.2550 (Cy.215))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor y dylid adolygu'r defnydd o'r geiriau "and of all other powers enabling it in that behalf" yn y Rhaglith.

LC259 Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle yn gynnar i ystyried y Rheoliadau a nodasant nifer o bwyntiau a gywirwyd yn y drafft terfynol.

LC260 Gorchymyn Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen eglurhad pellach ar ail baragraff y Nodyn Eglurhaol.

LC261 Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1740 (W.123))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen gwirio'r cyfeiriadau at S.I. 1995/3189 ac at S.I. 2000/2215 yn Rheoliad 2 (troednodyn c).

LC262 Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Cynhyrchion Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1802 (W.131))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer eu paratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Hefyd, roedd gwall teipograffyddol yn y Nodyn Eglurhaol ac roedd y cyfeiriadau yn y trydydd paragraff wedi'u priodoli'n anghywir.

LC263 Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 6) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1801 (W.130))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer eu paratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Fodd bynnag, dylid nodi bod testun yr holl Rheoliadau yn y gyfres hon yr un fath o ran sylwedd ac, ar ôl cyfieithu un Gorchymyn, y dylasai fod yn haws cyfieithu'r rhai a'i dilynodd. Cymerwyd i ystyriaeth y cywiriadau a oedd yn angenrheidiol yn y Nodyn Eglurhaol.

LC264 Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 6) (Cymru) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.1884 (W.135))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC265 Gorchymyn Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1735 (Cy.122))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor un pwynt yr oedd angen ei egluro ac y gellid ei gywiro wrth gyhoeddi: cyfeiriai trydydd paragraff y Nodyn Eglurhaol yn anghywir at 'Regulations' tra oedd yn Orchymyn.

LC266 Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Diwygio) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5, ac ni wnaeth unrhyw sylwadau cyffredinol.

LC267 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 6) 2001 (SI 2001 No.1509 (W.106))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor na wnaethpwyd y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog am fod y cyfnod byr ar gyfer eu paratoi yn peri bod hynny'n anymarferol. Hefyd, roedd gwall gramadegol bach yn Atodlen 1 (erthygl 27, pennawd).

LC268 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 7) 2001 (SI 2001 No.1874 (W.134))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 22 Mai 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 yr oedd yn briodol ei gywiro pan gâi'r Gorchymyn ei argraffu a'i gyhoeddi (roedd y ddarpariaeth dod i rym yn anghyson ym mhennawd y Gorchymyn ac yn Erthygl 1(2)). O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod anghysondeb rhwng y ddarpariaeth dod i rym ym mhennawd y Gorchymyn ac yn Erthygl 1(2).

Yn ogystal â hynny, roedd gwall teipograffyddol yn Erthygl 2(2) ac yn yr Atodlen.

LC269	Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2291 (Cy.179))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle i edrych ar ddrafft cynharach o'r rheoliadau hyn a nodasant nifer o bwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol ynghylch Rheoliad 2(2)(a)(i) (derbyniwyd bod y ddarpariaeth wedi'i chynnwys yn briodol ar y sail ei bod yn bosibl bod pwerau i osod amodau neu gyfyngiadau a geir mewn darpariaethau statudol heblaw am y rhai a restrir yng Ngholofn o Atodlen 1), rhai gwallau teipograffyddol, sawl anghysondeb rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg a gwall gramadegol yn y testun Cymraeg.

LC270	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2287 (Cy.175))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Mehefin 2001

Ni wahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a enwir yn Rheol Sefydlog 11.5, ond gwnaeth ddau sylw cyffredinol: awgrymwyd y dylai rhestr yr adrannau ddarllen "... 105(2) and 106(1), (2) of ..." ac y byddai angen cwblhau'r troednodyn cyn cyhoeddi.

LC271	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2290 (Cy.178))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle i edrych ar ddrafft cynharach o'r rheoliadau hyn a nodasant nifer o bwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol ynghylch y fannod yn y teitl, cynnwys troednodiadau a gwallau teipograffyddol yn y testun Cymraeg.

LC272	Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2277 (Cy.167))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Mehefin 2001

Ni wahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a bennir yn Rheol Sefydlog 11.5, ond gwnaeth rai sylwadau cyffredinol: ni allai adran 31(2) fod yn berthnasol yng Nghymru. Gan hynny ni fyddai adran 31 yn berthnasol oni wneid rheoliadau o dan isadran (1)(b). Roedd y rheoliadau perthnasol i'w cyhoeddi gyda 28 Gorffennaf 2001 yn ddyddiad dod i rym.

LC273 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2293 (Cy.181))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Mehefin 2001

Ni wahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a bennir yn Rheol Sefydlog 11.5, ond gwnaeth nifer o sylwadau cyffredinol ynghylch absenoldeb y cyfeiriad at y ddarpariaeth a geir yn Rheoliad 3(3) ac anghywirdeb rhai cyfeiriadau eraill.

LC274 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2292 (Cy.180))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Mehefin 2001

Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle i edrych ar ddrafft cynharach o'r Rheoliadau hyn a nodasant nifer o bwyntiau o amheuaeth yr ymdriniwyd â hwy, mewn rhai achosion drwy gywiriadau i'r drafft, ac mewn achosion eraill drwy eglurhad. Felly, ni wahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a bennir yn Rheol Sefydlog 11.5, ond gwnaeth un sylw cyffredinol ynghylch Rheoliad 7(5), lle na ddylid bod wedi cilosod y pedair llinell olaf.

LC275 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2284 (Cy.173))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Mehefin 2001

Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle i edrych ar ddrafft cynharach o'r rheoliadau hyn a nodasant nifer o bwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Fodd bynnag, roedd rhai mân bwyntiau yn aros, sef camgymeriadau teipograffyddol a gramadegol yn y testunau Cymraeg a Saesneg a rhai anghysondebau bach rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

Wedi ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod materion i'w codi yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cytunwyd, gan mai gwallau drafftio bach oedd y rhain, y dylid eu newid yn unol â Rheol Sefydlog 22.13 drwy Femorandwm Cywiriadau.

Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol hefyd, un ynghylch yr anghysondebau yn nifer mwyaf y pwyllgorau ac un ynghylch nodi is-bwyntiau ym mharagraff 11.

LC276 Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Trwyddedau Brys) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.1539 (W.107))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5, ond tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r Rheoliadau hyn wedi'u drafftio'n ddwyieithog.

LC277 Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 7) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.1986 (W.137))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 5 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5, ond tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r Rheoliadau hyn wedi'u drafftio'n ddwyieithog.

LC278 Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2276 (Cy.166))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Ar ôl cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Gorchymyn hwn, awgrymodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol nifer o bwyntiau drafftio a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.

LC279 Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2289 (Cy.177))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Mehefin 2001

Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle yn gynnar i edrych ar y drafft o'r Gorchymyn hwn ac awgrymu nifer o bwyntiau drafftio a gymerwyd i ystyriaeth. Gan hynny, nid oedd unrhyw faterion yr oedd yn rhaid i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

LC280 Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2279 (Cy.169))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Mehefin 2001

Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle yn gynnar i edrych ar y drafft o'r Gorchymyn hwn ac awgrymu nifer o bwyntiau drafftio a gymerwyd i ystyriaeth. Gan hynny, nid oedd unrhyw faterion yr oedd yn rhaid i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

LC281 Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2288 (Cy.176))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Ar ôl cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, cododd yr ymgynghorwyr cyfreithiol nifer o fân bwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth.

LC282 Rheoliadau Cod Ymddygiad (Cyflogeion Anghymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2278 (Cy.168))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC283 Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2280 (Cy.170))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Mehefin 2001

Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a'u cywiro wedyn, felly nid oedd unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC284 Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2281 (Cy.171))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Mehefin 2001

Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a'u cywiro wedyn.

Roedd dau bwynt yn aros (Rheoliad 8(6)(c) – dylasai “above” fod yn “below”; Rheoliad 11(1)(b) – dylasai “11(3)(b)” fod yn “10(3)(b)”) a oedd i'w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. Roedd un sylw cyffredinol ynghylch y troednodyn (f), a oedd i'w gwblhau yn y fersiwn o'r rheoliadau a gyhoeddir.

LC285 Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) 2001 (SI 2001 No.2286 (Cy.174))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Mehefin 2001

Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau a'u cywiro wedyn yn y drafft terfynol, felly nid oedd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC286 Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2283 (Cy.172))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Ar ôl cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Gorchymyn hwn, awgrymodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol nifer o bwyntiau drafftio a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol ynghylch sillafiad gair yn y testun Cymraeg a'r angen am gyfeiriad cyflawn ar gyfer troednodyn (c) yn y copi printiedig yn y Nodyn Eglurhaol, rhai camgymeriadau yn y testun Cymraeg a sylwadaeth am eiriad y Rheoliadau.

LC287 Rheoliadau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a Chomisiynydd Lleol yng Nghymru (Swyddogaethau a Threuliau) 2001 (SI 2001 No.2275 (Cy.165))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5, ac ni wnaeth unrhyw sylwadau cyffredinol.

LC288 Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.2496 (Cy.200))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd pwyntiau mwy cyffredinol a'u cywiro wedyn.

LC289 Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.2497 (Cy.201))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC290 Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2001 (SI 2001 No.2499 (Cy.202))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC291 Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Addysg Bellach) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd nifer o bwyntiau mewn perthynas â sylwadau cyffredinol a gywirwyd wedyn.

LC292 Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2501 (Cy.204))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 19 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC293 Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen cwblhau rhai cyfeiriadau SI, oherwydd y cychwyn cynharach, cyn cyhoeddi a bod angen adolygu'r rhifo paragraffau yn Erthygl 2 yn y testun Cymraeg.

LC294 Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2500 (Cy.203))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen eglurhad ar ail baragraff y Nodyn Eglurhaol, bod angen adolygu rhifo'r erthyglau a'r paragraffau, un ai drwy Femorandwm Cywiriadau neu wrth argraffu ac, yn nhroednodyn (b), fod cromfach o chwith yn llinell 4.

LC295 Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC296 Rheoliadau Addysg (Cyrff Sefydledig) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Mehefin 2001

Cafodd yr ymgynghorwyr cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynnar pan nodwyd gwallau a'u cywiro wedyn. Gan hynny, ni chanfuwyd pwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol, roedd angen dau gywiriad bach.

LC297 Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2678 (Cy.219))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynnar pan godwyd rhai pwyntiau mewn perthynas â sylwadau cyffredinol a'u cywiro wedyn.

Roedd nifer o bwyntiau yr oedd angen eu cywiro o hyd yn Rheoliad 14(2), Atodlen 1 (Tabl 3) ac Atodlen 4 (paragraff 17).

LC298 Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 26 Mehefin 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried y Rheoliadau hyn pan nodwyd sawl pwynt y credent eu bod yn addas i'w cywiro un ai drwy Femorandwm Cywiriadau neu ar adeg argraffu.

LC299 Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd 1995 (Cychwyn a Darpariaeth Arbed Tir Halogedig) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2351 (Cy.191) (C.79))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen mwy o wybodaeth yn y Nodyn Eglurhaol mewn perthynas â gorchmynion cychwyn, bod ynddo anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg yn Erthygl 1(1) (yr oedd yn briodol eu cywiro yn y Gorchymyn a gyhoeddir) a bod cyfeiriad diangen ynddo at Erthygl 1(3).

LC300 Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen eglurhad pellach ar Reoliad 1(2) (roedd y gair "respectively" wedi'i ddefnyddio'n amhriodol); roedd rhai camgymeriadau gramadegol yn Rheoliad 6(c) a Rheoliad 10(4)(b), roedd camgymeriad teipograffyddol ym mhennawd RHAN VII: roedd yn darllen "PART VI". Ar wahân i'r camgymeriad teipograffyddol, roedd y pwyntiau hyn i'w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. Cywiriad teipograffyddol yn unig fyddai cywiro pennawd Rhan VII.

LC301 Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (Cychwyn) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Nododd y Pwyllgor sawl pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. a oedd i'w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: roedd mân wallau drafftio yn is-baragraffau (e), (f) a (g) yn Erthygl 2(2) (roedd y geiriad disgrifiadol wedi'i briodoli'n anghywir) ac roedd Adran 8 wedi'i gadael allan o'r testun yn anghywir.

LC302 Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Nododd y Pwyllgor sawl pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. a oedd yn addas i'w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: roedd angen i'r gorchymyn ddarparu ar gyfer cychwyn adran 117(1) a gyflwynai Atodlen 5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod y teitl a ddyfynnir yn y paragraff agoriadol yn anghywir; roedd rhai cyfeiriadau SI yn anghyflawn; nid oedd y dyddiadau ar gyfer adran 39 wedi'u cwblhau (y tabl cyntaf).

LC303 Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.05.

LC304 Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.05.

LC305 Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2679 (Cy.220))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor wall teipograffyddol yn y Nodyn Eglurhaol ac yn Nhroednodyn (f), yn ogystal â'r angen i wella eglurdeb yn Rheoliad 3(2). Roedd y ddau bwynt yn briodol i'w cynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

LC306 Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor un gwall gramadegol yn y pennawd ar dudalen 1.

LC307 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC308 Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2681 (Cy.222))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC309 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2706 (Cy.226))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen newid un gair er mwyn cael mwy o eglurder yn y Nodyn Eglurhaol (Rheoliad 4(b)) ac yng ngeiriad paragraff

(1A) yn Rheoliad 3(b); yn Rheoliad 5 roedd cyfeiriadau at un rhyw benodol ym mharagraffau 31E, 31F a 31G(1); roedd anghysondeb yn y testunau Cymraeg a Saesneg ym mharagraff 31E(2). Roedd yr holl bwyntiau yn rhai yr oedd yn briodol eu cynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

LC310 Gorchymyn Etholiadau Lleol (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Nododd y Pwyllgor un pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. a oedd i'w gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: roedd y teitl Cymraeg yn anghyson â'r amrywiolyn Saesneg ac roedd angen eglurhad pellach arno. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod y Cwnsler Seneddol wedi argymhell newid adrannau 26(1) a 35(2) o Ddeddf 1972 yn barhaol.

LC311 Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 8) 2001 (SI 2001 No.2235 (W.161))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod y rheoliadau wedi'u drafftio mewn un iaith (Saesneg yn unig); bod angen rhywfaint o eglurhad pellach ar Rheoliad 3 (2) a bod rhai gwallau teipograffyddol yn Rheoliadau 10 (5) a (6).

LC312 Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 8) 2001 (SI 2001 No.2236 (Cy.162))

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod dau wall teipograffyddol yn y Nodyn Eglurhaol ac yn y Troednodyn a oedd yn rhai addas i'w cywiro un ai drwy slip cywiro neu yn y gyfrol flynyddol.

LC313 Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn rhag Tramgwyddwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 3 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor ddau wall teipograffyddol: un yn nhestun Saesneg Rheoliad 2 ac un arall yn nhestun Cymraeg Rheoliad 2(4)(b).

LC314 Rheoliadau Porthiant a Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2001

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 17 Gorffennaf 2001

Nododd y Pwyllgor sawl pwynt a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. a oedd i'w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau: roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg (Rheoliadau 3(a)(ii), 3(a)(iii)); roedd gwall argraffu yn y ddau destun (dylai "14" fod yn "12" yn Rheoliad 3(a)(ii)); roedd y teitl wedi'i gamgyfieithu yn y testun Cymraeg (Rheoliad 3(c)); dylai dyfyniad fod yn Saesneg, nid yn Gymraeg (Rheoliad 4(1)); roedd camgymeriad teipograffyddol yn nhestun Cymraeg Rheoliad 10(a); roedd peth camrifo yn Rheoliad 12 ac roedd rhai gwallau gramadegol yn Rheoliad 17(a). O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod camgymeriad teipograffyddol yn nheitl y testun Cymraeg ar dudalen 1; bod gwall gramadegol bach yn y testun Cymraeg yn Rheoliadau 1 a 3(a)(i); bod angen eglurhad ar y cyfeiriad at Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001 ac er mwyn cael mwy o eglurder fod angen i Droednodyn (f) gynnwys y rhif W.

LC315	Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) (Diddymu) 2001 (SI 2001 No.2302 (Cy.190))
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 17 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5.

LC316	Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Gwahardd Brechu) (Cymru) 2001
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 17 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen newid Rheoliad 4(1) ychydig er mwyn cael mwy o eglurder a bod terminoleg sy'n cyfeirio at un rhyw yn Rheoliadau 5(1)(b), (2) a 6(1).

LC317	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001
-------	--

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 17 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod rhai gwallau teipograffyddol yn Erthygl 1 yn y testun Saesneg (roedd y rhifo paragraffau yn anghywir ac roedd un gromfach wedi'i gadael allan).

LC318	Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 (SI 2001 No.2504 (Cy.205) (C.82))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 17 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod angen rhai newidiadau yn y Rhaglith er mwyn cael mwy o eglurder a bod rhai anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg yn Erthygl 1(2).

LC319	Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhif 2) 2001 (SI 2001 No.1788 (Cy.129))
-------	---

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 17 Gorffennaf 2001

Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw bwyntiau a oedd yn adroddadwy yn unol â Rheol Sefydlog 11.5. O dan sylwadau cyffredinol nododd y Pwyllgor fod gwall teipograffyddol yn y penawdau teitl yn y testun Cymraeg (roedd un gair wedi'i adael allan).

ADRODDIAD I'R AELODAU**CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN Y PWYLLGOR YN EU HADRODDIADAU**

	Gweithdrefn Frys Rheol Sefydlog 22.26 (1)	Adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 11.5 (2)	Materion Rheol Sefydlog 11.5 a newidiwyd drwy Femorandwm Cywiriadau (3)	Angen Mwy o Eglurder (4)	Gwallau Gramadegol (5)	Anghysondeb yn y Testunau Cymraeg a Saesneg (6)	Iaith sy'n Benodol i Un Rhyw (7)	Gwallau Teipograff- yddol (8)	Sylwadau wedi'u cynnwys yn y Fersiwn Terfynol (9)
LC118 (e)	*	*		*					(2)
LC119 (e)	*			*					(1)
LC120 (e)	*			*					(2)
LC121 (s)			*						(1)
LC122 (e)	*			*					(1)
LC123 (s)									(1)
LC124 (s)									(1)
LC125 (s)									(1)
LC126 (s)				*					(2)
LC127 (s)				*					(2)
LC128 (s)				*				*	(1)
	(1)	(2)	(3)	(4)	(5)	(6)	(7)	(8)	(9)

LC209 (e)	*								* nid yn ddwyieithog				(4)
LC210 (e)	*	*							* nid yn ddwyieithog	*			(2)
LC211 (e)	*												(1)
LC212 (e)	*								* nid yn ddwyieithog				(4)
LC213 (e)	*						*			*			(3)
LC214 (s)										*			(1)
LC215 (s)										*			Dim OS
LC216 (s)						*				*			(2)
LC217 (e)	*								* nid yn ddwyieithog				Dim OS
LC218 (s)							*		*				(2)
LC219 (e)	*						*		* nid yn ddwyieithog				(3)
LC220 (e)	*								* nid yn ddwyieithog				(4)
LC221 (e)	*								* nid yn ddwyieithog				(4)
LC222 (e)	*								* nid yn ddwyieithog				(4)
LC223 (e)	*								* nid yn ddwyieithog				(4)
LC224 (e)	*						*		* nid yn ddwyieithog	*			(2)
	(1)	(2)	(3)	(4)	(5)	(6)	(7)	(8)	(9)				

